Cyngor Cyllido Addysg
Uwch Cymru
Higher Education Funding
Council for Wales

hefcw

| | |
|---|---|
| **HEFCW newsletter**<br>**October 2013** | **Newyddlen CCAUC**<br>**Hydref 2013** |
| **Chief Executive's introduction** | **Cyflwyniad y Prif Weithredwr** |
| **National Student Survey** | **Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr** |
| **£1 million to give Welsh students the extra edge** | **£1 filiwn i sicrhau bod myfyrwyr Cymru ar y blaen** |
| **HEFCW's response to the Welsh Government's technical consultation on the Higher Education (Wales) Bill** | **Ymateb CCAUC i'r ymgynghoriad technegol Llywodraeth Cymru ar y Bil Addysg Uwch (Cymru)** |
| **Strategic engagement with universities** | **Ymgysylltiad strategol â phrifysgolion** |
| **Funding injection for modern languages take-up** | **Chwistrelliad cyllid i fyfyrwyr ieithoedd modern** |
| **Universities and colleges have fee plans approved for 2014/15** | **Cynlluniau ffioedd prifysgolion a cholegau yn cael eu cymeradwyo ar gyfer 2014/15** |
| **Monitoring the impact of student engagement guidance** | **Monitro effaith canllawiau ymgysylltu â myfyrwyr** |
| **We are funding The Conversation** | **Rydym yn cyllido The Conversation** |
| **Research capital funding 2013-14** | **Cyllid cyfalaf ar gyfer ymchwil 2013-14** |
| **Green Gown awards** | **Gwobrau Gynau Gwyrdd** |
| **Live Greener** | **Byw'n Wyrddach** |
| **Reviewing the Higher Education Academy** | **Adolygu'r Academi Addysg Uwch** |
| **Open Access Consultation** | **Ymgynghoriad Mynediad Agored** |
| **High Performance Computing (HPC) Wales bursaries** | **Bwrsariaethau Cyfrifiadura Perfformiad Uchel** |
| **In brief** | **Yn gryno** |
| **Events** | **Digwyddiadau** |
| **Chief Executive's introduction**<br>In June we welcomed the new policy statement from then Education Minister Leighton Andrews, who outlined his vision for developing higher education over the coming | **Cyflwyniad y Prif Weithredwr**<br>Ym mis Mehefin gwnaethom groesawu datganiad polisi newydd gan y Gweinidog Addysg ar y pryd, Leighton Andrews, a amlinellodd ei weledigaeth ar gyfer datblygu |

years. This statement was launched during a very successful *Welsh Universities – Driving Growth* campaign in the Senedd, which showcased how universities help to deliver jobs, award-winning research and growth.

Over the summer we responded to the Welsh Government’s Higher Education (Wales) Bill consultation document. The Bill, if the proposals are accepted in their current form, would strengthen HEFCW’s powers relating to fee planning and funding, quality assessment, and the financial and governance assurance of higher education insitutions. It would also change how ‘higher education’ provision was designated, which determines if students receive support.

The summer also saw A-level results day and many universities offering course places – particularly to school and college-leavers - through the clearing process. Of course, taking on full-time undergraduate students through UCAS and through clearing is just one way in which universities recruit, and we wish *all* students, however they choose to study at whatever age, the best of luck for the next academic year.

Another merger was completed over the summer, with Swansea Metropolitan University officially becoming a part of the University of Wales Trinity Saint David. We wish staff and students well in what should be an even more robust institution than before.

We have our annual public meeting to look forward to on 8 November, giving anyone who is interested in our work a chance to meet the people behind the organisation and question us about what’s on their mind when it comes to higher education.

Finally, the Welsh Government is looking to recruit up to two new Council members and a new Chair of the Council, as Roger Thomas’s second term ends next spring. You can now view the advertisement for Chair on the Welsh Government’s website.



addysg uwch yn ystod y blynyddoedd nesaf. Lansiwyd y datganiad hwn yn ystod ymgyrch lwyddiannus iawn yn y Senedd, *Prifysgolion Cymru - Tanio Tyfiant*, a oedd yn edrych ar ffyrdd y gall prifysgolion helpu i i sicrhau swyddi, ymchwil o'r radd flaenaf a thwf.

Yn ystod yr haf, gwnaethom ymateb i ddogfen ymgynghori Bil Addysg Uwch (Cymru) Llywodraeth Cymru. Byddai'r Bil, pe bai'r cynigion yn cael eu derbyn fel ag y maent ar hyn o bryd, yn cryfhau pwerau CCAUC sy'n gysylltiedig â chyllido a chynllunio ffioedd, asesu ansawdd, a sicrwydd ariannol a llywodraethu sefydliadau addysg uwch. Byddai hefyd yn newid y ffordd y byddai darpariaeth 'addysg uwch' yn cael ei dosbarthu, sy'n penderfynu a fydd myfyrwyr yn derbyn cymorth.

Yn ystod yr haf hefyd cafwyd diwrnod canlyniadau Safon Uwch a nifer o brifysgolion yn cynnig lleoedd ar gyrsiau - yn enwedig i fyfyrwyr sy'n gadael ysgol a'r coleg - drwy'r broses glirio. Wrth gwrs, mae derbyn myfyrwyr israddedig amser-llawn drwy UCAS a chlirio yn un ffordd y bydd prifysgolion yn recriwtio, a dymunwn yn dda i *bob* myfyriwr, sut bynnag a phryd bynnag y byddant yn dewis astudio, ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf.

Cwblhawyd proses uno yn ystod yr haf, gyda Phrifysgol Fetropolitan Abertawe yn dod yn rhan swyddogol o Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Dymunwn yn dda i'r staff a'r myfyrwyr mewn sefydliad a ddylai fod yn fwy cadarn nag erioed o'r blaen.

Rydym yn edrych ymlaen at ein cyfarfod cyhoeddus blynyddol ym ar 8 Tachwedd, a fydd yn rhoi'r cyfle i unrhyw un sydd â diddordeb yn ein gwaith gyfarfod â'r bobl y tu ôl i'r sefydliad a holi am unrhyw beth sy'n ymwneud ag addysg uwch.

I gloi, bydd Llywodraeth Cymru'n recriwtio dau aelod newydd i'r Cyngor a Chadeirydd newydd i'r Cyngor, wrth i ail dymor Roger Thomas ddod i ben y gwanwyn nesaf. Gallwch weld yr hysbyseb ar wefan Llywodraeth Cymru.



| | |
|---|---|
| **National Student Survey**<br><br>84% of students in Wales are satisfied with their overall higher education experience, according to the latest survey of universities and further education colleges.<br>The survey, now in its ninth year, shows that, in all categories covered by the survey, satisfaction has either improved or stayed the same since 2012.<br>More<br><br>The Unistats website, which provides a wealth of information about higher education institutions and courses, was re-launched on 19 September. The website, which covers courses in Wales, England, Scotland and Northern Ireland, offers an improved experience for mobile users, and courses can now be searched for by location.<br>More | **Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr**<br><br>Mae 84% o fyfyrwyr Cymru'n fodlon ar eu darpariaeth addysg uwch yn gyffredinol, yn ôl yr arolwg diweddaraf o brifysgolion a cholegau addysg bellach.<br>Mae'r arolwg, sydd bellach yn ei nawfed flwyddyn, yn dangos bod bodlonrwydd naill ai wedi gwella neu wedi aros yr un peth ers 2012 ar draws yr holl gategorïau a gwmpesir gan yr arolwg.<br>Mwy<br><br>Cafodd gwefan Unistats, sy'n darparu cyfoeth o wybodaeth am sefydliadau a chyrsiau addysg uwch, ei hail-lansio ar 19 Tachwedd. Mae'r wefan sydd wedi cael ei hail-lansio, sy'n cynnwys cyrsiau yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, yn cynnig profiad gwell i ddefnyddwyr symudol, ac erbyn hyn gellir chwilio am gyrsiau yn ôl lleoliad.<br>Mwy |
| **£1 million to give Welsh students the extra edge**<br>Students entering higher education this term will become some of the most employable graduates from universities in Wales, thanks to a new £1 million programme.<br>The scheme will fund innovative projects to boost the employability prospects of Welsh graduates by making sure they are equipped with the appropriate skills for a competitive workplace.<br>More | **£1 filiwn i sicrhau bod myfyrwyr Cymru ar y blaen**<br>Bydd myfyrwyr sy'n dechrau addysg uwch y tymor hwn yn dod yn rhai o'r graddedigion mwyaf cyflogedig o brifysgolion Cymru, diolch i raglen £1 filiwn newydd.<br>Bydd y cynllun yn cyllido prosiectau arloesol i roi hwb i ragolygon cyflogadwyedd graddedigion Cymru drwy sicrhau eu bod yn meddu ar y sgiliau priodol ar gyfer gweithle cystadleuol.<br>Mwy |
| **HEFCW's response to the Welsh Government's technical consultation on the Higher Education (Wales) Bill**<br>We responded to the Welsh Government's Higher Education (Wales) Bill Technical Consultation, which included proposed changes to the role of HEFCW.<br>More | **Ymateb CCAUC i'r ymgynghoriad technegol Llywodraeth Cymru ar y Bil Addysg Uwch (Cymru)**<br>Gwnaethom ymateb i Ymgynghoriad Technegol Llywodraeth Cymru ar y Bil Addysg Uwch, a oedd yn cynnwys newidiadau i rôl CCAUC.<br>Mwy |
| **Strategic engagement with universities**<br>We are reviewing the level of information we request from universities and our subsequent engagement with them. We currently ask | **Ymgysylltiad strategol â phrifysgolion**<br>Rydym yn adolygu lefel y wybodaeth y gofynnwn amdani gan brifysgolion a'n hymgysylltiad dilynol â hwy. Ar hyn o bryd, |

| | |
|---|---|
| institutions for strategic plans, strategies that cover specific policy areas, and information that feeds into our risk review process, and we visit institutions for regular assurance visits. We are putting together proposals on how to streamline this process, while putting greater emphasis on engaging strategically with the higher education sector, senior management and governing bodies, and we will be consulting on them soon.<br>More | rydym yn gofyn i sefydliadau am gynlluniau strategol, strategaethau sy'n cwmpasu meysydd polisi penodol, a gwybodaeth sy'n bwydo i'n prosesau adolygu risg, ac rydym yn ymweld â sefydliadau i gynnal ymweliadau sicrwydd rheolaidd. Rydym yn llunio cynigion ar sut i symleiddio'r broses hon, tra'n rhoi mwy o bwys ar ymgysylltu'n strategol â'r sector addysg uwch, uwch reolwyr a chyrff llywodraethu, a byddwn yn ymgynghori arnynt cyn hir.<br>Mwy |
| **Funding injection for modern languages take-up**<br>A project to encourage people to study modern foreign languages has had a £120,000 funding boost.<br><br>Routes Cymru, run by CILT Cymru, brings universities, schools and colleges together to motivate language learning and inspire individuals.<br><br>It will be funded jointly for a further year by us and WJEC before ownership of the scheme is passed on to universities.<br>More | **Chwistrelliad cyllid i fyfyrwyr ieithoedd modern**<br>Mae prosiect i annog pobl i astudio ieithoedd tramor modern wedi cael hwb ariannol o £120,000.<br><br>Mae Llwybrau Cymru, sy'n cael ei redeg gan CILT Cymru, yn dod â phrifysgolion, ysgolion a cholegau at ei gilydd i'w hysgogi i ddysgu ieithoedd ac ysbrydoli unigolion.<br><br>Bydd yn cael ei gyllido ar y cyd am flwyddyn bellach gennym ni a CBAC cyn pasio perchenogaeth y cynllun ymlaen i brifysgolion.<br>Mwy |
| **Universities and colleges have fee plans approved for 2014/15**<br>All eight universities and three colleges which offer HE courses had their fee plans approved by us, and can charge their chosen fee levels for undergraduate courses from the 2014/15 academic year.<br>More | **Cynlluniau ffioedd prifysgolion a cholegau yn cael eu cymeradwyo ar gyfer 2014/15**<br>Gwnaethom gymeradwyo cynlluniau ffioedd yr wyth prifysgol a'r tri choleg sy'n cynnig cyrsiau AU,  a gallant godi eu ffioedd dewisol ar gyfer cyrsiau israddedig o flwyddyn academaidd 2014/15 ymlaen.<br>Mwy |
| **Monitoring the impact of student engagement guidance**<br>We have asked universities to provide us with feedback by 11 October on the impact of:<br>• student charters<br>• our guidance on good practice in funding of effective, democratic student unions, and<br>• our guidance on student representation.<br><br>NUS Wales will also be gathering information from Students' Unions perspectives on the possible impact of our guidance. We will | **Monitro effaith canllawiau ymgysylltu â myfyrwyr**<br>Rydym wedi gofyn i brifysgolion roi data i ni erbyn 11 Hydref ar effaith:<br>• Siarterau Myfyriwr<br>• ein canllaw ar arfer gorau wrth gyllido undebau myfyrwyr effeithiol a democrataidd<br>• a'n canllaw ar gynrychiolaeth i fyfyrwyr.<br><br>Bydd UCM Cymru hefyd yn casglu gwybodaeth o safbwynt Undebau'r Myfyrwyr ar effaith bosibl ein canllawiau. Byddwn yn |

| | |
|---|---|
| report our findings to the Welsh Government in due course.<br>More | adrodd ein canfyddiadau i Lywodraeth Cymru maes o law.<br>Mwy |
| **We are funding The Conversation**<br>The Conversation went live in the UK in May 2013. It is an independent website which combines academic and journalistic expertise to provide news and commentary. Cardiff University is one of the institutions contributing to the pilot version of the UK website, and HEFCW is match funding Cardiff University's contribution.<br>More | **Rydym yn cyllido The Conversation**<br>Aeth gwefan The Conversation yn fyw ym mis Mai 2013. Mae'n wefan annibynnol sy'n cyfuno arbenigedd academaidd a newyddiadurol i ddarparu newyddion a sylwebaeth. Mae Prifysgol Caerdydd yn un o'r sefydliadau sy'n cyfrannu at y fersiwn o wefan y DU sy'n cael ei pheilota, ac mae CCAUC yn darparu arian cyfatebol i gyfraniad Prifysgol Caerdydd.<br>Mwy |
| **Research capital funding 2013-14**<br>HEFCW will receive £2.5 million from the Department of Business, Innovation and Skills (BIS) to provide funding for the physical infrastructure associated with research at universities. The funding for eligible universities will be matched by the Welsh Government, making the total fund £5 million. The amount a university receives will depend on how much research funding – including HEFCW, Research Council and other funding - it has attracted. Universities are particularly encouraged to invest in the areas of: life sciences and health; low carbon, energy and environment; and advanced engineering and materials.<br>More | **Cyllid cyfalaf ar gyfer ymchwil 2013-14**<br>Bydd CCAUC yn derbyn £2.5 miliwn gan yr Yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau i ddarparu cyllid ar gyfer yr isadeiledd ffisegol sy'n gysylltiedig ag ymchwil mewn prifysgolion. Bydd y cyllid ar gyfer prifysgolion cymwys yn cael ei gyfateb gan Lywodraeth Cymru, gan greu cronfa o £5 miliwn. Bydd y swm y bydd pob prifysgol yn ei derbyn yn dibynnu ar faint o gyllid ymchwil - yn cynnwys gan CCAUC, y Cyngor Ymchwil a chyllid arall - y mae wedi'i denu. Caiff prifysgolion eu hannog yn benodol i fuddsoddi ym meysydd: gwyddorau bywyd ac iechyd; carbon isel, ynni a'r amgylchedd; a deunyddiau a pheirianneg ddatblygedig.<br>Mwy |
| **Green Gown awards**<br>These awards, run by The Environmental Association for Universities and Colleges (EAUC), recognise excellence in sustainability initiatives in further and higher education in the UK. Swansea University is a finalist in the facilities and services category. The winners will be announced at an awards ceremony on 12 November.<br>More | **Gwobrau Gynau Gwyrdd**<br>Mae'r gwobrau hyn, sy'n cael eu rhedeg gan y Gymdeithas Amgylcheddol dros Brifysgolion a Cholegau (EAUC), yn cydnabod rhagoriaeth mewn mentrau cynaliadwy ym maes addysg uwch ac addysg bellach yn y DU. Mae Prifysgol Fetropolitan Abertawe wedi cael ei henwi yn y rownd derfynol yn y categori cyfleusterau a gwasanaethau. Cyhoeddir yr enillwyr mewn seremoni wobrwyo ar 12 Tachwedd.<br>Mwy |
| **Live Greener**<br>NUS Wales, in partnership with specialists in green innovation TYF, has been awarded £68,000 to deliver HE sector-leading greening | **Byw'n Wyrddach**<br>Mae UCM Cymru, mewn partneriaeth ag arbenigwyr mewn arloesedd gwyrdd, TYF, wedi derbyn cytundeb sydd werth £68,000 i |

| | |
|---|---|
| initiatives. The project, substantially funded by the Welsh Government and managed through HEFCW, is part of Live Greener, which puts students at the heart of sustainability plans. NUS Wales anticipates that its Green Impact, Student Switch Off, Blackout and Snap It Off to Wales initiatives will make measurable differences to institutions, students and the environment, and also save students' unions money, make students more employable, and engage more students with their unions.<br>More | gyflenwi mentrau gwyrdd a fydd yn arwain y sector AU. Mae'r prosiect, sy'n cael ei gyllido'n sylweddol gan Lywodraeth Cymru a'i reoli drwy CCAUC, yn rhan o Fyw'n Wyrddach, sy'n rhoi myfyrwyr wrth wraidd cynlluniau ar gyfer cynaliadwyedd. Mae UCM Cymru yn rhagweld y bydd ei fentrau Effaith Gwyrdd, Myfyrwyr Diffoddwch Ef, Diffodd y Golau a Cymru'n Diffodd, yn gwneud gwahaniaethau mesuradwy i sefydliadau, myfyrwyr a'r amgylchedd, a hefyd yn arbed arian i undebau myfyrwyr, yn gwneud myfyrwyr yn fwy cyflogadwy, ac yn ymgysylltu myfyrwyr â'u hundebau yn well.<br>Mwy |
| **Reviewing the Higher Education Academy**<br>We are encouraging Welsh universities to participate in the forthcoming review of the Higher Education Academy (HEA) to make sure that the views of all Welsh institutions are heard.<br>HEFCW has commissioned the review of the HEA jointly with the other funders around the UK. This review, which will be carried out by Capita Consulting, aims to establish whether the restructured HEA is:<br>• achieving the general priorities set by the funders and its wider aims and objectives; and<br>• supported by the sector.<br>Changes were last made as a result of the 2007-08 review.<br>Institution heads have already been invited to provide feedback on the HEA. An online survey is also available for anyone who is interested in contributing to the review. | **Adolygu'r Academi Addysg Uwch**<br>Rydym yn ymgysylltu â phrifysgolion Cymru i gymryd rhan yn adolygiad Yr Academi Addysg Uwch sydd ar y gweill i sicrhau bod barn pob sefydliad yng Nghymru yn lleisio barn.<br>Mae CCAUC wedi comisiynu adolygiad o'r Academi Addysg Uwch ar y cyd â sylfaenwyr eraill ledled y DU. Nod yr adolygiad hwn, a fydd yn cael ei gynnal gan Capita Consulting, fydd canfod a yw'r Academi Addysg Uwch a ailstrwythurwyd:<br>• yn cyflawni ei flaenoriaethau cyffredinol a bennwyd gan y sylfaenwyr a'i amcanion a'i nodau ehangach; a<br>• yn cael ei gefnogi gan y sector.<br>Gwnaed newidiadau diweddaf o ganlyniad i adolygiad 2007-08.<br>Gwahoddwyd penaethiaid y sefydliadau eisoes i roi adborth i'r Academi Addysg Uwch. Mae arolwg ar-lein hefyd ar gael i unrhyw un sydd â diddordeb mewn cyfrannu at yr adolygiad. |
| **Open Access Consultation**<br>Welsh universities are encouraged to respond to the consultation, which discusses whether to make open access – where the outcomes of publicly funded research are freely available – a requirement in future reviews of research excellence. Consultation on open access in the post-2014 Research Excellence Framework | **Ymgynghoriad Mynediad Agored**<br>Caiff prifysgolion Cymru eu hannog i ymateb i'r ymgynghoriad, sy'n trafod a ddylid gwneud mynediad agored - lle mae canlyniadau ymchwil a ariennir yn gyhoeddus ar gael yn ddidrafferth - yn ofyniad wrth adolygu rhagoriaeth ymchwil yn y dyfodol. Ymgynghoriad i fynediad agored yn Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil ôl-2014 |

**High Performance Computing (HPC) Wales bursaries**

This bursary fund from HPC Wales will help businesses across Wales enhance their computational skills.

It is designed to boost the skills and experience of graduates and professionals, while providing expert computing support to businesses. It is open to business professionals in North Wales, West Wales and the Valleys – 'Convergence' areas - who wish to benefit from up to four weeks' training to build skills in the area of advanced computation. It will also part-fund 10-week work placements with additional training, some in conjunction with GO Wales.

Applications

**Bwrsariaethau Cyfrifiadura Perfformiad Uchel**

Bydd y gronfa fwrsariaeth hon gan HPC Cymru yn helpu busnesau ledled Cymru i wella'u sgiliau cyfrifiadurol.

Mae wedi'i llunio i roi hwb i sgiliau a phrofiad graddedigion a gweithwyr proffesiynol, tra'n rhoi cymorth cyfrifiaduron arbenigol i fusnesau. Mae'n agored i weithwyr busnes proffesiynol yng Ngogledd Cymru, Gorllewin Cymru a'r Cymoedd - ardaloedd 'Cydgyfeirio' - sydd am elwa ar hyd at bedair wythnos o hyfforddiant i adeiladu ar sgiliau ym maes cyfrifiadura uwch. Bydd hefyd yn helpu i gyllido lleoliadau gwaith rhan amser am 10 wythnos gyda hyfforddiant ychwanegol, rhai ar y cyd â GO Wales.

Ceisiadau

**In brief**

- Wales's vice-chancellors have signed the *Wales Open Education Declaration of Intent,* which outlines their commitment to offering learners the opportunity to access online the best material that HE in Wales has to offer, to contribute to improving skills and developing knowledge around the world.
- Congratulations to Dr Fay Short of Bangor University who has been made a Fellow of the Higher Education Academy in the National Teacher Fellowship Scheme. More
- HEFCW has signed a Memorandum of Understanding with Careers Wales, which shows their commitment to work together in areas of mutual interest.
- Our commitment to information security has been highlighted as we secured once again the ISO 27001 standard.

**Yn gryno**

- Mae is-gangellorion Cymru wedi llofnodi *Datganiad o Fwriad Addysg Agored Cymru,* sy'n amlinellu eu hymrwymiad i gynnig y cyfle i ddysgwyr gael mynediad i'r deunydd gorau ar-lein sydd gan AU Cymru i'w gynnig, cyfrannu at wella sgiliau a datblygu gwybodaeth ledled y byd.
- Llongyfarchiadau i Dr Fay Short o Brifysgol Bangor sydd wedi cael ei henwi'n un o Gymrodorion Academi Addysg Uwch y Cynllun Cymrodoriaethau Dysgu Cenedlaethol. Mwy
- Mae CCAUC wedi llofnodi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Gyrfa Cymru sy'n dangos eu hymrwymiad i gydweithio mewn meysydd o ddiddordeb cydfuddiannol.
- Mae ein hymrwymiad i ddiogelwch gwybodaeth wedi cael ei amlygu wrth i ni sicrhau'r safon ISO 27001 eto.

**HEFCW Council meetings:**

Friday, 8 November 2013

**Cyfarfodydd Cyngor CCAUC:**

Dydd Gwener, 8 Tachwedd 2013

| | |
|---|---|
| Friday, 24 January 2014 | Dydd Gwener, 24 Ionawr 2014 |
| Full timetable | Amserlen lawn |
| ------------------------------------------------ | ------------------------------------------------ |
| **New date** | **Dyddiad newydd** |
| **HEFCW annual public meeting** | **Cyfarfod cyhoeddus blynyddol CCAUC** |
| Friday, 8 November 2013 2:00 pm | Dydd Gwener, 8 Tachwedd 2013 2:00 y prynhawn |
| To **unsubscribe** from this newsletter, please email **info@hefcw.ac.uk** with the words ‘unsubscribe - newsletter’ in the subject box. | I **dynnu’ch enw oddi ar restr danysgrifio’r** newyddlen hon, anfonwch neges e-bost at **info@hefcw.ac.uk** gyda’r geiriau ‘tynnu enw tanysgrifio i’r newyddlen’ yn y blwch pwnc. |
| **We value your feedback**<br>We would like to know what you think about our newsletter. Please send your comments to info@hefcw.ac.uk. | **Rydym yn gwerthfawrogi eich adborth**<br>Hoffem wybod eich barn ar ein newyddlen. Anfonwch eich sylwadau at info@hefcw.ac.uk. |